

**Cymraeg mewn
Ymarfer Proffesiynol 2
2026-27**




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 7 : Adolygu cwestiynau.
Trafod tasgau testun ffeithiol ac
ysgrifennu creadigol.

Allwedd:




Drilio




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Tasg
wrando




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri




Gwaith
grŵp




Amser
canu



Gwaith ar
y byrddau
gwyn




Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth
i'r
Portffolio

Nod y ddarlith:

- Adolygu cwestiynu.
- Trafod testun ffeithiol.
- Tasg Portffolio.



Amser adolygu...



Rhagenw Gofynnol	Treigladd	Enghraifft
Sut + berf		
Sut + enw		
Pryd + berf		
Ble + berf		
Beth + berf		
Pwy + berf		
Pa + enw		
Pa + enw+ berf		
Pa un + berf		
Faint + berf		
Pam + berf		

Atebion.



Rhagenw Gofynnol	Treigladd	Enghraifft
Sut+ berf	Dim	
Sut + enw	Treigladd meddal	
Pryd + berf	Dim	
Ble + berf	Dim	
Beth + berf	Treigladd meddal	
Pwy + berf	Treigladd meddal	
Pa + enw	Treigladd meddal	
Pa + enw+ berf	Treigladd meddal	
Pa un + berf	Treigladd meddal	
Faint + Berf	Treigladd meddal	
Pam	Dim	


Pwyntiau i'w cofio.



- Bydd cwestiynau sy'n dechrau gydag 'Oes...?', cwestiynau pwysleisiol a chwestiynau yn y gorffennol, yn gofyn am 2 ateb posib – Oes/Nac Oes, Ie/Nage, neu Do/Naddo. Does dim ots at bwy mae'r cwestiwn yn cyfeirio.
- Mae gwahaniaeth rhwng 'oes' ac 'ydy' ar ddechrau cwestiwn – mae un yn benodol (ydy), a'r llall yn amhenodol (oes).
- Pan fydd berf ar y dechrau 'Ydy / Fydd / Oedd', bydd rhaid i'r ateb gyfateb i'r person hefyd.
- Gyda chwestiynau sy'n dechrau gyda 'Sut, Beth, Pwy, Pa, Faint' – efallai bydd angen treiglo! Byddwch yn ofalus a chyfeiriwch at y tabl i'ch helpu!
- Cofiwch: Sawl + unigol?, OND Faint + o + lluosog (a threigladd meddal)?

Ping pong neu bêl-rwyd?


Meddylwch am ddatblygu sgiliau cwestiynu fel dwy gêm. Ar y dechrau rydych chi am ddysgu'r patrymau cywir iddyn nhw drwy ddarparu cyfleoedd i atgyfnerthu patrymau holi ac ateb (ping pong). Yn y pendraw, rydych chi am annog disgyblion i ateb ei gilydd yn gywir a chwestiynu ei gilydd hefyd (pêl-rwyd).



Rhyngweithio

Questioning is not the only way to engage in dialogue with a class. It's useful to have a range of different speaking interactions in your repertoire. Your teaching will be less predictable and students may enjoy the variety of approaches. Note that many of these are not just designed for beginners and intermediates. Remember that just changing the type of interaction can make a task seem different to a class while ensuring repetition.


(Tud.158, *Becoming an Outstanding Languages Teacher*)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru



Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.

Mae ieithoedd a llythrennedd yn hanfodol i alluogi pobl i gyfathrebu â'i gilydd. Maen nhw'n ein galluogi i ddehongli'r hyn a glywn, a ddarllenwn ac a welwn, a thrwy hyn ddatblygu ein dealltwriaeth, ein hempatthi a'n gallu i ymateb a chyfryngu'n effeithiol.

Nod y Maes hwn yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr brofi iaith lafar ac ysgrifenedig, yn ogystal â delweddau, mewn ystod o ffurfiau a genres. Gall natur cyfoethog ac amrywiol y profiadau hyn ddatblygu gallu dysgwyr i ddod yn greadigol ac yn fentrus wrth ddefnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Gallan nhw hefyd fod o gymorth i ddysgwyr feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ddehongli'n feirniadol a diduedd yr hyn y byddan nhw'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld er mwyn rhyngweithio'n effeithiol fel dinasyddion galluog, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Deunydd ffeithiol



a llawer
mwy!!




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Storm Syniadau




Tasgau Darllen a Gwranddo.

Tasgau Darllen a Llafar.


Tasgau Darllen ac Ysgrifennu.

Sgil Cinderela = Sgil Gwrando

- Sgil wedi'i hesgeuluso neu wedi'i anghofio ydy gwrando.
- Caiff ei defnyddio fel prawf, nid dull dysgu.
- Sensiteiddio'r dysgwyr i batrymau ffonolegol, sillafol, geiriol, morffolegol a chystrawennol.
- Sgiliau-meicro.



Syniadau posib



Tasgau Darllen a Gwranddo.

- Tasg llenwi bylchau
- Cwestiynau-Disiau poced
 - Pa ffaith sy'n gywir?
- Gwaith grŵp – adrodd ffeithiau
 - Rhowch i mi bump




Sgil gwranddo a siarad

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg yn caffael yr iaith yn llwyddiannus drwy wrando ar ymarferwyr yn cyfathrebu â nhw yn y Gymraeg **yn gyson**. Trwy wneud hynny, maent yn clywed llif yr iaith ac yn dod i ddeall a mewnnoli geiriau a phatrymau cystrawennol yn effeithiol. Dros amser, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn magu hyder wrth ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg.

Caffael iaith, Estyn, 2021, tud. 38.



Syniadau posib




Tasgau Darllen a Llafar.

- Cardiau trafod
 - Cwestiynau
- Gêm y Gadair Goch
- Sgwrs ddychmygol
 - Araith





Syniadau posib



Tasgau Darllen ac Ysgrifennu. Casglu ffeithiau ac ysgrifennu....

- **Taflen wybodaeth**
 - **Adroddiad**
 - **Erthygl**
 - **Araith**
- **Llythyr ffurfiol**





Gofynion Asesu

Modwl 10 credyd

Portffolio yn cynnwys:

cynllun gwers
adnoddau
recordiad o'r wers feicro
gwerthusiad o'r wers (BA2 yn unig)

****ffocws ar bedagogeg a
strategaethau dysgu ac addysgu***

Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith (gofyniad LIC)

Portffolio yn cynnwys:

tystiolaeth o'ch sgiliau iaith Gymraeg ar
gyfer siarad, ysgrifennu, gwrando a
darllen.

Tystiolaeth o strategaethau dysgu ac
addysgu – gwaith y modwl 10 credyd.

Tasgau Gwranddo a Llafar



1. Tasgau ar gyfer portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith.
2. Bydd cyfle gyda chi ddewis tasg ar gyfer asesu eich sgiliau darllen/ llafar a darllen. Mae'r cwestiynau ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:
3. <https://www.porth.ac.uk/cy/group-collection/tasgau-asesu-a-datblygu-sgiliau-iaith-athrawon>

Chwilio am adnodd

Pwnc

Math o adnodd

Lefel

Tagiau

CHWILIO

Ychwanegwyd: 16/10/2023 | 2.2K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon

Disgrifiad

Dyma gasgliad o dasgau sy'n gallu cael eu defnyddio i ddatblygu ac asesu sgiliau iaith ymarferwyr addysg yn erbyn y **Fframwaith Cymwyseddau iaith i Ymarferwyr Addysg**. Mae'r casgliad yn cynnwys tasgau ar gyfer pob sgil a phob lefel yn y Fframwaith. Mae'r llyfrynau PDF sy'n cynnwys holl dasgau'r lefel dan sylw, ar gael ar gyfer bob lefel o'r Fframwaith. Yn ogystal, mae'r tasgau ar gael i'w lawrlwytho yn unigol ar ffurf dogfennau Word.

Os na fydd y dolenni yn agor y ddogfen mewn tab newydd, yna bydd y ddogfen wedi ei lawrlwytho (edrychwch yn y ffolder lawrlwythiadau ar eich cyfrifiadur).

Tagiau

Sgiliau iaith Addysg Hyfforddiant Athrawon Addysg Gychwynnol Athrawon Adnodd Coleg Cymraeg

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON

Ychwanegwyd: 30/09/2024 | 392

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Addysgeg

LEFEL MYNEDIAD

Ychwanegwyd: 16/10/2023 | 1K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Mynediad

LEFEL SYLFAEN

Ychwanegwyd: 16/10/2023 | 1K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Sylfaen

LEFEL CANOLRADD

Ychwanegwyd: 16/10/2023 | 879

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Canolradd

LEFEL HYFEDREDD

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON

LEFEL HYFEDREDD NEU UWCH

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON

LEFEL UWCH

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON

Iaith ac Ymadroddion ar gyfer Mynegi Barn

A dweud y gwir	Anghytunaf	Beth bynnag
Byddai'n braf petai...	Byddai'n dda petai...	Credaf
Cytunaf	Dadl arall	Does dim amheuaeth fod...
Does dim dwywaith nad...	Does dim rhyfedd mai...	Dylid cofio mai...
Er hyn...	Felly...	Fodd bynnag
Gwaetha'r modd...	Gŵyr pawb...	Heb os nac oni bai
Heb unrhyw amheuaeth	Hoffwn	I gloi...
O ganlyniad, teimlaf...	Onid yw...	Mae lle i gredu...
Mae'n amlwg y bydd angen...	Mae'n amlwg fod angen...	Mae'n anhygoel fod...
Mae'n anodd credu...	Mae'n bwysig iawn nodi...	Mae'n hen bryd
Mae'n rhaid cydnabod...	Meddyliaf	Pwy all beidio â...
Pwysig yw nodi...	Pwynt arall	Rwy'n argyhoeddedig...
Rwyf o'r farn...	Rwy'n rhyfeddu	Rydw i'n meddwl
Rhaid cofio	Teimlaf	Wedi'r cyfan...
Wrth reswm...	Y gwir cas yw...	Y gwirionedd yw mai...
Yn ail	Yn anffodus...	Yn bendant
Yn bersonol...	Yn ddi-os, fe fydd...	Yn drydydd
Yn fy marn i...	Yn gyntaf	Yn ôl rhai
Yn ôl pob tebyg	Yn sicr	Yn wir



'Gair yn
Gymorth'



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Rhan 2:

- Datblygu ysgrifennu creadigol a ffeithiol.

Sgiliau ysgrifennu yn y dosbarth...

Y peth cyntaf sydd angen ei wneud ydy dewis **sbardun** addas ar gyfer cynllunio a chyflawni tasg ysgrifennu.

Gall y sbardun hwnnw ddod mewn sawl gwahanol ffordd.

Trafodwch a meddyliwch am syniadau sut
gallwch chi gyflwyno tasg ysgrifennu i'r
dysgwyr.



Pwysigrwydd cynhesu

- Meddyliwch am wersi ysgrifennu fel gwersi Ymarfer Corff.
- Cyn dechrau gwneud Ymarfer Corff, mae'n rhaid cynhesu'r corff.
- Wrth baratoi ar gyfer cyflawni tasg ysgrifennu, rhaid cynhesu'r ymennydd.
- Gallwch wneud hyn drwy: chwarae gêmâu geiriau / brawddegau; defnyddio byrddau gwyn bach; defnyddio gofod yr ystafell' defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol; a.y.y.b.
- Meddyliwch am gynnwys y cwrs hwn a'r holl weithgareddau rydych chi wedi eu gwneud.



Gallwch chi ddefnyddio llun fel sbardun i waith y dosbarth. Mae'n gyfle da i ddatblygu sgiliau llafar a gwaith grŵp cyn dechrau cynllunio tasg ysgrifenedig.

Disgrifio'r awyrgylch.

Casglu geirfa/berfau allweddol.

Defnyddio llun



Meddyliau/deialog rhwng cymeriadau?

Beth sydd wedi digwydd/beth sy'n mynd i ddigwydd?

Defnyddio clip fideo/ sain

Rhannu profiadau personol.

Casglu geirfa/berfau allweddol.



Meddyliau/deialog rhwng cymeriadau?

Beth sydd wedi digwydd/ beth sy'n mynd i ddigwydd?

Gallwch ddefnyddio clipiau sydd wedi eu haninmeiddio, clipiau ffilm, rhaglenni ffeithiol, rhaglenni newyddion, a.y.y.b.

Defnyddio darn o farddoniaeth / stori / chwedl / nofel...

Disgrifio'r
awyrgylch.

Casglu
geirfa/
berfau
allweddol.



Meddyliau'r
cymeriad (au).

Beth sydd
wedi digwydd/
beth sy'n
mynd i
ddigwydd?

Defnyddio gwrthrych (au)

Disgrifio'r
gwrthrych.

Casglu geirfa,
e.e.
ansoddeiriau /
berfau
allweddol.



Pwy oedd y
perchennog?

Beth ydy'r
cynnwys?

Pa destunau ysgrifennu
gellir eu hysgrifennu gan
ddefnyddio'r gwrthrych hwn
fel sbardun?

Cyflwyno ffeithiau neu ystadegau

Rhannu
profiadau
personol.

Casglu
geirfa
allweddol.

1 2 3 4 5
6 7 8 9 0

Cyd-destun
hanesyddol.

Beth sydd
wedi
digwydd?

Dysgu darn
ysgrifenedig
ar lafar.

Defnyddio dull Pie Corbett

<https://www.youtube.com/watch?v=VI2OWdZo6nY>



Dysgu drwy
symudiadau
e.e. actio.

Tynnu
lluniau/
symbolau.

Ailadrodd.

Darllen ar
goedd mewn
parau/
grwpiau.

Rhestr clir
a realistig.

Sicrhau
dealltwriaeth
o'r dasg.

Medru gwirio
tra'n gwneud
y dasg.

Creu Meini Prawf Llwyddiant



Llunio rhestr
gyda'i
gilydd.

Modd
cynnwys
her.

Modelu

Gweld
arfer dda.


Labeli a
lliwio
nodweddion
da.

Gallwch
ddefnyddio
model
parod.

Gallwch
greu model
eich hun.

Gellir
gwahaniaethu.

Gwaith
pâr/ grŵp i
fagu
hyder.



Mae rhoi amser i gynllunio yn rhan bwysig iawn fel rhan o'r broses ysgrifennu.

Amser cynllunio

Taflen gydag
adrannau clir.

Cyfle i
fagu hyder
a meddwl.



Gwaith
unigol.

Casglu geirfa
gwyb a
berfau
bendigedig.

Y broses ysgrifennu:

Cynhesu.

Edrych ar destun enghreifftiol.

Trafod nodweddion y testun.

Cynllunio ac ysgrifennu ar y cyd.

Gwaith annibynnol: cynllunio.

Gwaith annibynnol: ysgrifennu.

Darllen ac ail ddrafftio (ar ôl mewnbwn gan athro).

Ffurfiau ysgrifennu...



2 funud ar y cloc...
Gwnewch restr o ffurfiau
ysgrifennu creadigol.

Ffurfiâu ysgrifennu creadigol...

Stori

Dyddiadur

Portread

Ymson

Llythyr



Pa ffurf?



oed	Bibi Merch fach naw oed yw Bibi. Hi yw chwaer fach Jamal yn y nofel 'Bachgen yn y môr' gan Morris Gleitzman.
enw	byw - ble?
teulu	Mae Bibi yn byw yn Afghanistan gyda'i rhieni a'i brawd mawr Jamal, sy'n dair ar ddeg oed. Mae hi'n gymeriad penderfynol ac annibynnol iawn ac mae hi wrth ei bodd yn chwarae pêl-droed efo'r bechgyn er nad oedd hawl gan ferched i wneud hynny yn Afghanistan. Mae hi'n meddwl bod gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched yn annheg iawn.
hoffi beth?	
sut berson?	Mae hi'n hawdd gwylltio Bibi a phan mae hynny'n digwydd, mae hi'n dueddol o golli rheolaeth. Pan mae morwr yn taro'i brawd, Jamal, mae hi'n ei daro ac yn ei gicio cyn cnoi ei goes.
gwneud beth?	Mae Bibi yn dangos ei theimladau'n glir. Mae hi'n casáu tryciau oherwydd bod tad ei ffrind wedi ei gymryd i ffwrdd mewn tryc. Dydy hi ddim yn ofni dangos ei theimladau achos mae hi'n taflu cerrig at y tryc.
sut berson?	Mae hi bob amser yn gofalu am ei theulu a'i ffrindiau ac mae'n dwlu ar ei brawd, Jamal. Felly, y geiriau gorau i ddisgrifio Bibi yw dewr, penderfynol, heini, byrbwyll, teimladwy a gweithgar gyda barn gadarn.

'Serennu wrth
'sgrifennu'.



Bibi

oed

Merch fach naw oed yw Bibi. Hi yw chwaer fach Jamal yn y nofel 'Bachgen yn y môr' gan Morris Gleitzman.

enw

byw - ble?

teulu

Mae Bibi yn byw yn Afghanistan gyda'i rhieni a'i brawd mawr Jamal, sy'n dair ar ddeg oed. Mae hi'n gymeriad penderfynol ac annibynnol iawn ac mae hi wrth ei bodd yn chwarae pêl-droed efo'r bechgyn er nad oedd hawl gan ferched i wneud hynny yn Afghanistan. Mae hi'n meddwl bod gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched yn annheg iawn.

hoffi beth?

sut berson?

Mae hi'n hawdd gwylltio Bibi a phan mae hynny'n digwydd, mae hi'n dueddol o golli rheolaeth. Pan mae morwr yn taro'i brawd, Jamal, mae hi'n ei daro ac yn ei gicio cyn cnoi ei goes.

gwneud beth?

Mae Bibi yn dangos ei theimladau'n glir. Mae hi'n casáu tryciau oherwydd bod tad ei ffrind wedi ei gymryd i ffwrdd mewn tryc. Dydy hi ddim yn ofni dangos ei theimladau achos mae hi'n taflu cerbyd at y tryc.

Mae hi bob amser yn gofalu am ei theulu a'i ffrindiau ac mae'n dwlu ar ei brawd, Jamal. Felly, y geiriau gorau i ddisgrifio Bibi yw dewr, penderfynol, heini, byrbwyll, teimladwy a gweithgar gyda barn gadarn.

sut berson?

Treigladau meddal ar ôl arddodiaid.


Treigladau meddal ar ôl 'ei' gwrywaidd.

Treigladau llaf ar ôl cysylltair 'a'.

Treigladau llaf ar ôl 'ei' benywaidd.

Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd unigol.

Ffurfiâu ysgrifennu...



2 funud ar y cloc...
Gwnewch restr o ffurfiâu
ysgrifennu ffeithiol.

Ffurfiâu ysgrifennu ffeithiol...

Blog

Adroddiad
/ Erthygl

Llythyr

Taflen
wybodaeth

Bwletin
Newyddion

Pa ffurf?



STORM ALYS YN ACHOSI DIFROD SYLWEDDOL

Mae difrod sylweddol wedi ei weld ar draws Cymru yn dilyn storm Alys neithiwr. Gwelwyd gwyntoedd o 78 milltir yr awr ar draws Cymru, ynghyd â dwy fodfedd o law'n disgyn o fewn tair awr. Gweddillion corwynt a welwyd ar draws Môr yr Iwerydd yw Storm Alys.

Yn ôl Pwerdy'r Gogledd, roedd 9,000 o gartrefi heb drydan o 6pm neithiwr. Roedd gan 6,000 o'r tai hynny gyflenwad trydan erbyn 8am y bore yma, ond mae 2,000 yn dal i fod heb bŵer. Dywedodd Simon Adams, llefarydd ar ran Pwerdy'r Gogledd:

"Bu timoedd allan yn gweithio ar hyd a lled Cymru, mewn amodau gweithio anodd iawn, er mwyn sicrhau bod y tai hyn yn cael eu hailgysylltu â'r trydan. Roedd dau gant a hanner o weithwyr gyda ni'n gweithio drwy'r nos ac mae'n glod iddyn nhw eu bod wedi llwyddo i ailgysylltu'r cyflenwad ar gyfer 6000 o dai."

Roedd hi'n noson anodd i'r gwasanaethau brys hefyd. Cafodd y gwasanaeth tân ei alw yn Sir Fynwy gan fod coed wedi cwmpo ar wifrau trydan ac achosi tân.

'Ffurio'r ffurfiau.'

<https://hwb.gov.wales/repository/source/91638c6c-3fd9-4473-b1a4-c0d2e65d6d07/overview>

STORM ALYS YN ACHOSI DIFROD SYLWEDDOL

Mae difrod sylweddol wedi ei weld ar draws Cymru yn dilyn storm Alys neithiwr. Gwelwyd gwyntoedd o 78 milltir yr awr ar draws Cymru, ynghyd a dwy fodfedd o law'n disgyn o fewn tair awr. Gweddillion corwynt a welwyd ar draws Môr yr Iwerydd yw Storm Alys.

Yn ôl Pwerdy'r Gogledd, roedd 9,000 o gartrefi heb drydan o 6pm neithiwr. Roedd gan 6,000 o'r tai hynny gyflenwad trydan erbyn 8am y bore yma, ond mae 2,000 yn dal i fod heb bŵer. Dywedodd Simon Adams, llefarydd ar ran Pwerdy'r Gogledd:

"Bu timoedd allan yn gweithio ar hyd a lled Cymru, mewn amodau gweithio anodd iawn, er mwyn sicrhau bod y tai hyn yn cael eu hailgysylltu â'r trydan. Roedd dau gant a hanner o weithwyr gyda ni'n gweithio drwy'r nos ac mae'n glod iddyn nhw eu bod wedi llwyddo i ailgysylltu'r cyflenwad ar gyfer 6000 o dai."

Roedd hi'n noson anodd i'r gwasanaethau brys hefyd. Carodd y gwasanaeth tân ei alw yn Sir Fynwy gan fod coed wedi cwmpo ar wifrau trydan ac achosi tân.

Berfau
amhersonol-
gorffennol

Treigladau
meddal ar ôl
arddodiaid.

Ansoddair yn
treiglo'n feddal
ar ôl 'yn/'n'.

Berfau
gorffennol

Treigladau
meddal ar ôl
'dwy.'

Ffeithiau ac
ystadegau

Dyfyniad






Cynllunio tasgau ysgrifennu



Meddyliwch am Faes Dysgu a Phrofiad a meddyliwch am dasgau ysgrifennu addas ar gyfer uned o waith neu thema e.e.


- Adroddiad papur newydd yn adrodd hanes y digwyddiad.
- Portread o berson/ gymeriad .
- Llythyr yn cwyno am sefyllfa at y Llywodraeth/ Cyngor lleol.
- Taflen wybodaeth yn cynnwys cyngor/ cyfarwyddiadau.
- Ymson cymeriad yn adrodd ei brofiad/ ei phrofiad.

Adnoddau defnyddiol i'r dosbarth cynradd...




Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Grŵp o
dri



Gwaith
pâr



Tasg
ysgrifennu

Tasgau Portffolio



1. Tasgau ar gyfer portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith.
2. Darllen a Llafar
3. Gwrando a Llafar
4. Ysgrifennu
5. <https://www.porth.ac.uk/cy/group-collection/tasgau-asesu-a-datblygu-sgiliau-iaith-athrawon>



Chwilio am adnodd

Pwnc

Math o adnodd

Lefel

Tagiau

CHWILIO

Ychwanegwyd: 16/10/2023 | 2.2K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon

Disgrifiad

Dyma gasgliad o dasgau sy'n gallu cael eu defnyddio i ddatblygu ac asesu sgiliau iaith ymarferwyr addysg yn erbyn y **Fframwaith Cymwyseddau iaith i Ymarferwyr Addysg**. Mae'r casgliad yn cynnwys tasgau ar gyfer pob sgil a phob lefel yn y Fframwaith. Mae'r llyfyrnau PDF sy'n cynnwys holl dasgau'r lefel dan sylw, ar gael ar gyfer bob lefel o'r Fframwaith. Yn ogystal, mae'r tasgau ar gael i'w lawrlwytho yn unigol ar ffurf dogfennau Word.

Os na fydd y dolenni yn agor y ddogfen mewn tab newydd, yna bydd y ddogfen wedi ei lawrlwytho (edrychwch yn y ffolder lawrlwythiadau ar eich cyfrifiadur).

Tagiau

Sgiliau iaith Addysg Hyfforddiant Athrawon Addysg Gychwynnol Athrawon Adnodd Coleg Cymraeg

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON

Ychwanegwyd: 30/09/2024 | 392

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Addysgeg

LEFEL MYNEDIAD

Ychwanegwyd: 16/10/2023 | 1K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Mynediad

LEFEL SYLFAEN

Ychwanegwyd: 16/10/2023 | 1K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Sylfaen

LEFEL CANOLRADD

Ychwanegwyd: 16/10/2023 | 879

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Canolradd

LEFEL HYFEDREDD

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON

LEFEL HYFEDREDD NEU UWCH

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON

LEFEL UWCH

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON